


VTCT Diploma mewn Technoleg Ewinedd Lefel 3



Yn gwyno

Ydych chi eisiau bod yn dechnegydd ewinedd talentog?

Mae'r cwrs galwedigaethol cynhwysfawr hwn wedi'i gynllunio i roi'r paratoad gorau posibl i chi ar gyfer gyrfa fel technegydd ewinedd, gyda chymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol.

Dyma'r cwrs i chi os...

...unrhyw un sy'n gweithio, neu eisiau gweithio fel technegydd ewinedd.

...rheiny sydd eisiau dysgu proffesiwn newydd ochr yn ochr â'u cyflogaeth bresennol.

...pobl sydd â diddordeb mewn technoleg ewinedd a'r diwydiant harddwch.

...pobl sy'n greadigol, a gyda sylw i fanylion.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Daw'r Diploma YEHG Lefel 3 mewn Technoleg ewinedd hwn â'r holl elfennau gofynnol i weithio'n effeithiol fel technegydd ewinedd proffesiynol at ei gilydd.

Ymhlith y pynciau gofynnol y mae:

Rhoi triniaeth y dwylo a thriniaethau'r traed
Cymhwyso, cynnal a chadw safon ewinedd
Cynnal iechyd a lles personol
Iechyd a diogelwch a gofalu am gleientiaid.

Gall pynciau arbenigol dewisol gynnwys:

Cynllunio a chymhwyso celf ewinedd
Cynlluniau cuddio brychau
Gwella cyflwr ewinedd gyda ffeiliau trydanol
Hyrwyddo cynhyrchion
Arddangos stoc er mwyn hyrwyddo gwerthiannau

Hefyd, byddwch yn cael gwybodaeth ac yn ennyn dealltwriaeth o anatomeg a ffisioleg berthnasol, iechyd a diogelwch, gofalu am gleientiaid, cynnyrch ac offer harddwch cosmetig. Yn ogystal, byddwch yn meithrin amrywiaeth o sgiliau technegol i baratoi'r croen a chymhwyso sawl triniaeth gwella ewinedd, gan ddefnyddio technegau amrywiol a rhyngbersonol, i'ch helpu i gyfathrebu'n effeithiol gyda chleientiaid.

Seiliwyd y cymhwyster ar therapi Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) mewn harddwch. Fe'i cydnabyddir gan y Gymdeithas Brydeinig broffesiynol arweiniol yn y DU, y British Association of Beauty Therapy and Cosmetology. Pan fyddwch chi wedi cael y cymhwyster hwn, byddwch yn gymwys i ddod yn aelod proffesiynol o BABTAC.

Disgwylir i chi weithio ar gleientiaid realistig mewn amgylchedd masnachol ac i fod yn gyfrifol am ddatblygu eich 'sail cleientiaid' eich hun - er bod y cymhwyster hwn yn caniatáu i chi gasglu tystiolaeth heb fod angen cael cleientiaid sy'n talu ffioedd.

Cewch eich asesu gan ddefnyddio cyfuniad o asesiadau ymarferol ar gyfer pob uned, aseiniad a phrosiectau a phrofion atebion lluosog yn ymdrin â'r wybodaeth sy'n sail i'r cwrs.

Mae'r cwrs hwn wedi ei anelu i'ch helpu i ddod o hyd i waith yn dechnegydd ewinedd, ac yn eich galluogi i ymuno â chymdeithas broffesiynol a chael yr yswiriant angenrheidiol i weithio yn y diwydiant.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae disgwyl i chi gwblhau asesiadau ymarferol ac aseiniadau theori ar gyfer pob uned.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y cymhwyster hwn yn eich paratoi ar gyfer cyflogaeth fel technegydd ewinedd. Byddwch hefyd yn gymwys i ymuno â chymdeithas broffesiynol a chael yswiriant fel technegydd ewinedd. Mae cyfleoedd gyrfa fel technegydd ewinedd yn bodoli mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae'r cymhwyster hwn yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) therapi harddwch ac mae'n cael ei gydnabod gan gymdeithas broffesiynol flaenllaw'r DU, Cymdeithas Therapi Harddwch a Chosmetoleg Prydain (BABTAC) fel un sy'n addas i'r diben ar gyfer eich paratoi ar gyfer gyrfa fel technegydd ewinedd. Mae deiliaid y cymhwyster hwn yn gymwys i ddod yn aelod proffesiynol o BABTAC.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg y salon yw:

Tiwnig a throwsus ac esgidiau du
Gwallt wedi ei glymu'n daclus oddi ar yr wyneb
Rhaid peidio â gwisgo estyniadau ewinedd a farnais
Dim tyllau – dim ond modrwy briodas y gellir ei gwisgo

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £170, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.